# SL(5)490 – Cod Ymarfer ar gyfer Lles Ieir Bwyta ac Ieir Bwyta at Fridio

## Cefndir a Diben

Cyhoeddir y Cod Ymarfer hwn (“y Cod”) o dan adran 14 o Ddeddf Lles Anifeiliaid 2006 (“y Ddeddf”). Mae'n berthnasol i bob math o Ieir Bwyta a Ieir Bwyta at Fridio y mae person yn gyfrifol amdanynt.

Cafodd y Cod ei ystyried gan y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ar 30 Medi 2019. Oherwydd sawl gwall, cafodd ei dynnu’n ôl wedi hynny ar 2 Hydref 2019 a’i ail-osod ar 5 Rhagfyr 2019. Cafodd ei dynnu'n ôl a'i ail-osod am y trydydd tro ar 21 Ionawr 2020.

Roedd y Cod Ymarfer blaenorol yn adlewyrchu'r wyddoniaeth a'r ddeddfwriaeth gyfredol ar y pryd. Roedd angen adolygiad er mwyn nodi unrhyw newidiadau yn y meysydd hynny a sicrhau bod y safonau a argymhellwyd yn dal yn briodol. Mae hefyd yn disodli'r canllawiau dros dro ar gyfer ceidwaid ieir bwyta a fegir yn gonfensiynol mewn perthynas â Rheoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) 2007 fel y'u diwygiwyd gan Reoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) (Diwygio) 2010, a gyhoeddwyd yn 2011.

Diben y Cod yw sicrhau bod y rhai sy'n gyfrifol am anifail yn ymwybodol bod dyletswydd gyfreithiol arnynt i gymryd camau rhesymol i sicrhau bod anghenion lles yn cael eu diwallu. Mae'r Cod Ymarfer yn esbonio'r hyn sydd angen i chi ei wneud i gyrraedd y safon o ran gofal sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith.

Nid yw mynd yn groes i un o ddarpariaethau’r Cod yn drosedd ynddi'i hun ond, os dygir achos yn erbyn rhywun am drosedd lles o dan y Ddeddf, caiff y Llys ystyried i ba raddau y mae wedi cydymffurfio â'r Cod wrth benderfynu a yw wedi troseddu neu wedi cyrraedd y safon ofynnol o ran gofal.

## Gweithdrefn

Drafft negyddol.

## Gwaith craffu o dan Reol Sefydlog 21.7

**Nodwyd un pwynt i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.7 mewn perthynas â'r cod hwn:**

Gan fod y cod drafft wedi'i dynnu'n ôl ar ddau achlysur, hwn fydd y trydydd tro i'r Pwyllgor ystyried y Cod. Yn flaenorol, ystyriodd Pwyllgor y Cod ar 30 Medi 2019 a 6 Ionawr 2020.

## Y goblygiadau yn sgil ymadael â’r Undeb Ewropeaidd

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.7 mewn perthynas â'r cod hwn. Gwneir y Cod gan ddefnyddio pwerau domestig.

## Ymateb y Llywodraeth

Nid oes angen ymateb gan y Llywodraeth.

## Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor y Cod yn ei gyfarfod ar 3 Chwefror 2020 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Cynulliad yn unol â'r pwynt adrodd uchod.